**Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol: Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd**

**Dyddiad: 24 Tachwedd 2014**

**Aelodaeth y Grŵp a swydd-ddeiliaid**

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC | |

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Andrew RT Davies AC<br>Suzy Davies AC<br>Antoinette Sandbach AC | Kirsty Williams AC<br>Simon Thomas AC<br>Mike Hedges AC |

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Carol Morgan-Jones (NEA Cymru) | Andrew Regan (Cyngor ar Bopeth Cymru) |

**Aelodau allanol**

| | |
|---|---|
| Graeme Francis - Age Cymru<br>Haf Elgar - Cyfeillion y Ddaear<br>Jennie Bibbings - Shelter Cymru<br>Ed Bridges - Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched<br>Carole Morgan Jones - NEA Cymru<br>Rhys Evans - Dyfodol Defnyddwyr<br>Vera Brinkworth - Gofal a Thrwsio Cymru<br>Ceri Dunstan - Shelter Cymru<br>David Fitzpatrick - Cynnal Cymru<br>Rachel Gingell - Gofal a Thrwsio Cymru<br>Mary van den Heuvel - Leonard Cheshire Disability<br>Shea Jones - Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Sean O'Neill - Plant yng Nghymru<br>Rebecca Rennison - Leonard Cheshire Disability<br>Hayley Richards - Oxfam Cymru<br>Rita Singh - Cynnal Cymru<br>Alun Thomas - Cyngor ar Bopeth Cymru<br>Michael Anderson - SSE<br>Gwion Evans - Comisiynydd Plant Cymru<br>Cat Griffith-Williams - Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig<br>Paul Haines - Nwy Prydain | Rhian Hughes - Canolfan Cydweithredol Cymru<br>Alun James - WWF<br>Chris Jones - Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr<br>Crispin Jones - E.on<br>Richard Jones - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Peter Kocen - Energy UK<br>Wendy Marinos - Carillion PLC<br>Duncan McCombie - yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni<br>Ruth Mullineux - Achub y Plant<br>Lia Murphy - Ofgem<br>Andy Regan - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Huw Roberts - Huw Roberts Associates<br>Jackie Roe - Wales and West Utilities<br>Nick Speed - Nwy Prydain<br>Nigel Winnan - Wales and West Utilities<br>Craig Anderson - Cymru Gynnes<br>Tony Graham - Trussell Trust<br>Carol Davies - Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain<br>Steve Salt - West Coast Energy |

**Cyfarfodydd Blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf**

**Cyfarfod 1**
Dyddiad: Cyfarfod a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2013 yn Ystafell Briffio'r Cyfryngau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

**Y rhai a oedd yn bresennol**

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC, Ceidwadwyr Cymreig (Cadeirydd) | Antoinette Sandbach AC, Ceidwadwyr Cymreig |

**Rhanddeiliaid**

| | |
|---|---|
| Carole Morgan-Jones<br>Andrew Regan<br>Huw Roberts<br>Ian Thomas<br>Nick Speed<br>Shea Jones<br>Douglas Haig<br>Michael Anderson<br>Steve Woosey<br>Sue Purnell<br>Fern Leathers<br>Sean O'Neill<br>Craig Anderson | **Ymddiheuriadau:**<br>Graeme Francis<br>Simon Thomas AC<br>Meleri Wyn Davies<br>Mary van den Heuvel<br>Lia Murphy<br>Crispin Jones |

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

- Croesawodd Mark Isherwood y gwesteion i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol. Diolchodd i Fern Leathers o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) am fod yn bresennol yn y cyfarfod i roi trosolwg o Adolygiad Hills a'r diffiniad newydd o dlodi tanwydd sy'n cael ei fabwysiadu yn Lloegr. Mae'r diffiniad 10% yn parhau i gael ei ddefnyddio yng Nghymru, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i newid y diffiniad.

- Ym mis Ebrill 2013 rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ffigurau ar raddfa tlodi tanwydd yng Nghymru gan ddefnyddio'r diffiniad 10%. Dangosodd hyn fod 30% o gartrefi (neu 386,000 o ran nifer) yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2012, o gymharu â 26% yn 2008. Pwysleisiodd yr adroddiad hefyd fod buddsoddi mewn camau i arbed ynni wedi cynorthwyo i gadw 3% o gartrefi Cymru allan o dlodi tanwydd. Hefyd mapiwyd ffigurau tlodi tanwydd ar gyfer Cymru o dan y diffiniad terfynol yn Adolygiad Hills, a ddangosodd fod 144,000 o aelwydydd (11%) mewn tlodi tanwydd drwy Gymru o dan y diffiniad hwn yn 2012.

- **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol -** Amlinellodd Mark y rheolau newydd a gyflwynwyd ar gyfer gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol, ac mae'n ofynnol bellach i gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a llunio adroddiad blynyddol a datganiad ariannol. Darparwyd copïau o'r adroddiad blynyddol i'r gwesteion, ynghyd â datganiad ariannol ar gyfer 2012-13. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi clywed gan amrywiaeth eang o siaradwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, yn sôn am Nest, am y Fargen Werdd a Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni, am newid cyflenwr ar y cyd, ac am ddull Monitro Tlodi Tanwydd y DU.

- **Ethol Cadeirydd yr Ysgrifenyddiaeth -** Dywedodd Mark y byddai ef yn falch o barhau fel cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, y bu'n gadeirydd arno ers i'r Grŵp gael ei sefydlu yn 2009. Yn yr un modd, mae NEA Cymru a Dyfodol Defnyddwyr (Llais Defnyddwyr Cymru gynt) yn darparu cymorth ysgrifenyddol ar gyfer y Grŵp, a byddent yn fodlon parhau yn y rôl hon. Gofynnodd Mark i'r aelodau a oeddent yn cefnogi ei ethol fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, ac NEA Cymru

a Dyfodol Defnyddwyr fel ysgrifenyddion ar y cyd ar gyfer y Grŵp. Cymeradwywyd hyn gan yr aelodau.

- **Tlodi tanwydd; fframwaith newydd - cyflwyniad gan Fern Leathers, Strategaeth Tlodi Tanwydd, Defnyddwyr a Chartrefi, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd -** rhoddodd Fern gyflwyniad ar y diffiniad newydd o dlodi tanwydd sy'n cael ei fabwysiadu yn Lloegr. Amlinellodd y cefndir i'r diffiniad newydd a'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd ym mis Mawrth 2011 gan yr Athro John Hills o'r London School of Economics. Roedd y cwestiynau allweddol a ystyriwyd yn ystod yr adolygiad yn cynnwys, a oedd tlodi tanwydd yn fater ar wahân; a oedd y diffiniad presennol yn gywir; a, sut y dylid mesur tlodi tanwydd. Daeth Adolygiad Hills i'r casgliad bod tlodi tanwydd yn fater ar wahân i dlodi yn fwy cyffredinol.

- Beirniadwyd y diffiniad 10% am fod ffigurau tlodi tanwydd yn isel pan fo prisiau ynni yn isel, ond yn uchel pan fo prisiau ynni yn codi. Roedd yn awgrymu hefyd fod bron hanner y boblogaeth yn byw mewn tlodi tanwydd, ac roedd yr adolygiad yn ystyried a oedd yn rhoi darlun cywir o ran pwy sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

- Canlyniad yr adolygiad oedd bod yr Athro Hills yn argymell y dylid mabwysiadu dull gweithredu Incwm Isel Costau Mawr, pan ystyrir bod cartref mewn tlodi tanwydd os bydd incwm y cartref, ar ôl talu costau'r tŷ, islaw'r llinell dlodi ar ôl addasu ar gyfer costau ynni, a'i fod yn wynebu costau ynni sy'n uwch na'r costau cyfartalog arferol. Mae'r dull Incwm Isel Costau Mawr yn darparu dangosyddion sy'n dangos graddfa'r tlodi tanwydd a'i arwyddocâd, a gaiff ei fesur gan y bwlch tlodi tanwydd. Cynhaliodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ymgynghoriad ar y dull gweithredu o ddewis ym mis Medi 2012. Mae wedi cael ei feirniadu am fod yn ddiffiniad cymhleth sy'n anodd ei ddeall, ond yn gyffredinol, roedd yr aelodau'n cefnogi newid y diffiniad presennol.

- Ym mis Gorffennaf 2013 cadarnhaodd y Llywodraeth y bydd yn mabwysiadu'r dull newydd, a gwnaed newidiadau i'r Bil Ynni, i ddiweddaru Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000, fel bod modd gosod targed tlodi tanwydd newydd drwy is-ddeddfwriaeth. Cefnogir y targed newydd gan strategaeth tlodi tanwydd newydd, a bydd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn ymgynghori ar ffurf, dyddiad a lefel y targed newydd ar ôl i'r Bil Ynni gael Cydsyniad Brenhinol. Mae dogfen fframwaith strategol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r dangosydd Incwm Isel Costau Mawr newydd i helpu i wneud penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

**Cyfarfod 2**
Dyddiad: Dydd Mercher 4 Mehefin 2014 - Tŷ Hywel (Ystafell Gynadledda C), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

**Y rhai a oedd yn bresennol**

**Aelodau'r Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC (Cadeirydd)<br>Alexander Phillips, Ymchwilydd, yn cynrychioli William Powell AC | Ymchwilydd yn cynrychioli Jenny Rathbone AC |

**Rhanddeiliaid**

| | |
|---|---|
| Vera Brinkworth - Gofal a Thrwsio Cymru<br>Duncan McCombie - yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni<br>James Cardy - yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni<br>Nick Speed - Nwy Prydain | **Ymddiheuriadau**<br>Andrew Regan - Cyngor ar Bopeth Cymru<br>David Fitzpatrick - Cynnal Cymru<br>Michael Anderson - SSE<br>Iwan Williams - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |

| | |
|---|---|
| Tim Wynn-Jones - Npower<br>Helen Roach - NEA Cymru<br>Carole Morgan-Jones - NEA Cymru<br>Douglas Haig - Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid<br>Haf Elgar - Cyfeillion y Ddaear<br>Matt Aplin - Ofgem<br>Graeme Francis - Age Cymru<br>Aileen Pritchard - Cyngor ar Bopeth Cymru<br>Elle McNeil - Cyngor ar Bopeth Cymru<br>Ceri Dunstan - Shelter Cymru<br>Nigel Winnan - Wales and West Utilities<br>Lia Murphy - Ofgem<br>Dorine Pannarale - Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid | Tomos Davies - Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Rachel Gingell - Gofal a Thrwsio Cymru<br>Danielle Royce - Wales and West Utilities<br>Crispin Jones - E.on<br>Euan Phillips - West Coast Energy<br>Steve Salt - West Coast Energy<br>Angela Burns AC<br>Antoinette Sandbach AC |

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Cofnodion y cyfarfod diwethaf -** Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

- Croesawodd Mark Isherwood y gwesteion i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol. Cyflwynodd Mark Douglas Haig o'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl i roi trosolwg o dlodi tanwydd yn y sector rhentu preifat.

- Amlinellodd Douglas gefndir demograffig tenantiaid a landlordiaid, a disgrifiodd y math o stoc tai sydd yn y sector rhentu preifat, sydd yn gyffredinol yn tueddu i fod yn stoc hŷn, sy'n dyddio fel arfer o'r cyfnod cyn 1918. Mae 80% o landlordiaid yn berchen ar un eiddo yn hytrach na meddu ar bortffolios mawr o eiddo, ac maent yn gwneud cyfraniad pwysig o ran prynu stoc hŷn a'u hadnewyddu fel eu bod mewn cyflwr addas i'w rhentu. Mae hyd cyfartalog tenantiaethau wedi codi o dri mis i dair blynedd. Gallai landlordiaid chwarae rôl o ran cefnogi tenantiaid drwy addysg mewn effeithlonrwydd ynni a gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, mae cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn tueddu i hepgor y sector rhentu preifat yn eu hymgyrchoedd marchnata. Soniodd Douglas na chaiff y Fargen Werdd a chynlluniau drwy rwymedigaeth y cwmnïau ynni eu hysbysebu'n ddigon da i denantiaid a landlordiaid, yn wahanol i'r cynllun gwaredu boeleri.

- Mae addysg tenantiaid yn bwysig, ond ar hyn o bryd, nid yw tenantiaid yn gofyn am Dystysgrifau Perfformiad Ynni nac i osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn y llety maent yn bwriadu eu rhentu. Felly, nid yw landlordiaid yn gwneud newidiadau mawr i effeithiolrwydd ynni eu heiddo. Er mwyn gweld newidiadau yn y stoc tai, rhaid annog tenantiaid i ofyn am y mesurau hyn a fydd, maes o law, yn rhoi pwysau ar landlordiaid i weithredu newidiadau o'r fath. Mae myfyrwyr yn pleidleisio â'u traed ac mae hyn wedi codi safonau eiddo rhent myfyrwyr.

- Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid eisoes wedi gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni syml megis inswleiddio atig. Inswleiddio waliau allanol yw'r mesur hirdymor pwysicaf y gellir ei wneud i wella effeithlonrwydd ynni eiddo, ond mae'n anodd ac yn ddrud i'w weithredu. Mae cost y rhan fwyaf o welliannau ynni yn golygu bod landlordiaid yn annhebygol o'u gweithredu heb gymorth ariannol gan eu bod yn annhebygol o gael yr arian yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cronfa gwerth £70 miliwn i gefnogi'r gwaith o ail-lansio rhwymedigaeth newydd y cwmnïau ynni, ond ymddengys fod cryn oedi o ran defnyddio'r gronfa hon i gefnogi mesurau yn y sector rhentu preifat.

- Dadl Douglas oedd fod angen i'r sector rhentu preifat gael blaenoriaeth o ran yr arian hwn oherwydd:
  - oed hŷn y stoc tai yn y sector rhentu preifat
  - o dan y Bil Tai, bydd cyflawni'r ddyletswydd digartrefedd yn y sector rhentu preifat yn cynyddu'r galw, a fydd yn arwain at lai o ddewis i denantiaid ac felly ni fydd yn codi safonau
  - o dan y Ddeddf Ynni, ni fydd yn gyfreithlon mwyach i rentu eiddo sydd yn radd F neu G erbyn 2018.

- Mae'n debygol bod pobl sy'n cael Lwfans Tai Lleol yn byw mewn eiddo o ansawdd is gan fod ganddynt lai o ddewis. Mae'n ymddangos bod rhai o'r cynlluniau'n diystyru tenantiaid sydd mewn ac allan o waith ar wahanol adegau a rhai sy'n cael Lwfans Tai Lleol. Mae'r Fargen Werdd a rhwymedigaeth y cwmnïau ynni yn seiliedig ar fodel tenantiaid, ac felly byddai ond yn berthnasol i eiddo cyhyd â bod y tenantiaid presennol yn byw yno. Pe bai hyn yn newid, fel y mae'n gwneud yn aml yn y sector rhentu preifat, ni fyddai'r model yn berthnasol i'r eiddo mwyach. Mae rheolau hefyd yn y cynlluniau sy'n golygu na allwch wella eich eiddo yn y cyfnodau pan fo'r eiddo'n wag (pan nad oes tenantiaid yno), er mai dyma'r amser gorau i wella eiddo. Mae'r Benthyciad Cartrefi Gwag yn gam cadarnhaol, ond gellir gwneud mwy.

- Dywedodd Douglas mai prif bryder tenantiaid oedd cadw'r eiddo yn lân yn hytrach na'i wella er budd y landlordiaid. Gellid defnyddio talebau tenantiaid er mwyn annog a chymell tenantiaid.

- Yng nghylch newydd rhwymedigaeth y cwmnïau ynni, mae mesurau meddal wedi cael eu hisraddio. Mae profiad y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT) a'r Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau (CESP) wedi dangos bod yn well gan gyflenwyr gael perchen-feddianwyr a landlordiaid cymdeithasol yn hytrach na'r sector rhentu preifat. Fodd bynnag, dylai arian gael ei dargedu tuag at driniaethau mwy hirdymor a pharhaol. Galwodd Douglas ar Lywodraeth Cymru i ddangos rhaglen barhaus a chyson o gefnogaeth ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni eiddo gan fod y newid cyson mewn cynlluniau a thargedau yn atal buddsoddiad hirdymor i eiddo.

- **Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy'r Bil Tai (Cymru) -** Haf Elgar yw Arweinydd Ymgyrchu a Pholisi Cyfeillion y Ddaear Cymru, ond gan siarad ar ran Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru, amlinellodd gefndir Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru. Wedi'i sefydlu yn 2009, mae'n cynnwys dros 50 o sefydliadau dan arweiniad grŵp llywio, sydd am weld diwedd ar dlodi tanwydd. Mae'r grŵp yn defnyddio arbenigedd cyfunol yr holl aelodau i dynnu sylw at gamau sydd angen eu cymryd i leihau tlodi tanwydd.

- Mae gan Gynghrair Tlodi Tanwydd Cymru bum galwad allweddol, sef:
  - Darparu cartrefi sy’n effeithlon o ran ynni
  - Gwella iechyd drwy gartrefi cynnes
  - Cefnogaeth mewn argyfwng
  - Grymuso defnyddwyr
  - Dull strategol

- Mae'r Gynghrair yn credu bod ffocws ar godi safonau yn y sector rhentu preifat yn bwysig a bod bwlch mawr yma. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2012 yn dangos bod 30% o'r tai yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae defnyddwyr sy'n ei chael yn anodd talu biliau yn aml yn rhoi'r gorau i brynu eitemau hanfodol eraill. Mae data o'r sector rhentu preifat yn 2008 yn dangos bod 36% o gartrefi yn y sector rhentu preifat yn dioddef o dlodi tanwydd, a bod gan yr eiddo hynny yr effeithlonrwydd ynni gwaethaf ar gyfartaledd.

- Mae Deddf Cartrefi Cynnes 2000 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018. Er y cydnabyddir yn gyffredinol na fydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd, mae dyletswydd o hyd ar Lywodraeth Cymru i wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol. Mae'r Bil Tai (Cymru) yn gyfle deddfwriaethol i wella safonau effeithlonrwydd ynni. Mae'r Gynghrair yn cymeradwyo trwyddedu landlordiaid er mwyn targedu dau grŵp penodol; landlordiaid anfwriadol nad ydynt yn ymwybodol o'u dyletswyddau, a lleiafrif o landlordiaid diegwyddor sy'n manteisio ar denantiaid sy'n agored i niwed ac yn rhoi enw drwg i landlordiaid.

- Mae Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru yn argymell pum maes allweddol o welliannau i'r Bil, sef:
  - Bod cydymffurfio â'r rheoliadau presennol yn amod o fod yn landlord trwyddedig
  - Bod y gyfraith bresennol sy'n ymwneud â thai a thenantiaeth yn cael ei chynnwys yn y prawf pobl addas a phriodol
  - Sicrhau bod tenantiaid y sector rhentu preifat yn cael gweld cyfraddau effeithlonrwydd ynni yr eiddo ar y gofrestr landlordiaid
  - Cyflwyno cyfrifoldeb landlordiaid i helpu tenantiaid i gael gafael ar arian ar gyfer effeithlonrwydd ynni
  - Cynnwys safonau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni yn y cod ymarfer

- Mae'r Bil yng Nghyfnod 2 y pwyllgor ar hyn o bryd, a chollwyd llawer o welliannau oherwydd pleidlais gyfartal. Rhoddodd Haf ddiolch i Mark Isherwood am gyflwyno llawer o'r gwelliannau hyn. Mae'r Gynghrair yn gobeithio bwrw ymlaen â'r gwelliannau hyn mewn rhyw ffurf. Mae'n amlwg o drafodaethau pwyllgorau fod y safon tai yn fater i'r Cynulliad.

**Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol:**

| | |
|---|---|
| Fern Leathers<br>Strategaeth Tlodi Tanwydd<br>Y Grŵp Defnyddwyr a Chartrefi<br>Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd<br><br>Haf Elgar<br>Arweinydd Ymgyrchu a Pholisi<br>Cyfeillion y Ddaear Cymru<br>33 Yr Oriel, Arcêd y Castell<br>Caerdydd<br>CF10 1BY | Douglas Haig<br>Cyfarwyddwr Cymru<br>Cymdeithas Landlordiaid Preswyl<br>d/o James Douglas Sales and Lettings<br>1, St. Martin's Row<br>Albany Road<br>Caerdydd<br>CF24 3RP |

**Datganiad Ariannol Blynyddol: Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd**

**24 Tachwedd 2014**

**Cadeirydd: Mark Isherwood AC**

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

Carol Morgan-Jones (NEA Cymru), Cyfarwyddwr, National Energy Action Cymru, Ystafell 30, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP. E-bost: carole.morgan-jones@nea.org.uk. Ffôn 02920 229322

Andrew Regan, Rheolwr Polisi Ynni, Cyngor ar Bopeth Cymru, Pedwerydd Llawr, Trafalgar House, 5 Fitzalan Place, Caerdydd CF24 OED. E-bost: Andrew.Regan@citizensadvice.org.uk. Ffôn 03000 231439

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r grŵp.** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau.** | Ni phrynwyd unrhyw nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a dderbyniwyd gan y grŵp neu gan Aelodau unigol o gyrff allanol.** | Ni dderbyniwyd unrhyw fuddiannau. | £0.00 |
| **Ysgrifenyddiaeth neu unrhyw gymorth arall.** | Ni dderbyniwyd unrhyw gymorth ariannol. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, fel lletygarwch.**<br><br>Talwyd am yr holl luniaeth gan Cyngor ar Bopeth Cymru. | | |
| **Dyddiad** | **Enw'r darparwr a disgrifiad ohono** | **Cost** |
| 11 Rhagfyr 2013 | Darparwyd lluniaeth (te / coffi / dŵr) gan CH&Co Catering Ltd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. | £28.44 |
| 4 Mehefin 2014 | Darparwyd lluniaeth (te / coffi / sudd ffrwythau / dŵr) gan CH&Co Catering Ltd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. | £30.96 |
| | **Cyfanswm y costau** | **£59.40** |